



Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol
De-Orllewin Cymru
South West Wales
Regional Contractors Framework

CROESO

Cyfres 1 Rhifyn 1

Awst 2020

Lansiwyd Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020 ar 1af Chwefror ac mae wedi bod yn brysur yn ystod y 6 mis cyntaf er gwaethaf y sefyllfa COVID-19 a'r heriau y mae'r diwydiant adeiladu wedi'u hwynebu o'i herwydd.

- Pontio di-dor o SWWRCF2015 i SWWRCF2020
- Ar hyn o bryd, mae 35 o brosiectau sy'n werth oddeutu £218 miliwn yn ddyledus oherwydd y gwaith sydd ar y gweill gan SWWRCF
- 6 Phrosiect yn cael dyfarniad ar sail dyfarniad uniongyrchol
- Hyd yma, cofnodwyd cyfleoedd o oddeutu £302 miliwn yn y dyfodol ar gronfa ddata SWWRCF
- Cyfanswm o oddeutu £934 miliwn wedi ymrwymo i fersiwn cyfredol a blaenorol o SWWRCF fel ym mis Awst 2020
- Mae'n darparu cyfleoedd amrywiol gydag amrywiaeth o brosiectau, gyda'r cynllun GIG cyntaf yn cael ei dendro ar hyn o bryd trwy'r fframwaith
- Hyd yma, sefydlwyd a gweithredwyd 12 Cyfrif Banc Prosiect ledled y rhanbarth ar gyfer prosiectau a dendrwyd o dan SWWRCF



CWRD Â'R TÎM

Mae tîm fframwaith SWWRCF wedi'i leoli yn Nghyngor Sir Caerfyrddin sy'n arwain y fframwaith ar ran y 4 partner rhanbarth arall. Dan arweiniad Andrew Shaw (Rheolwr Fframwaith) mae'r tîm wrth law i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i bob prosiect sy'n cael ei dendro trwy'r fframwaith.

Gallwn eich helpu chi â'r elfennau canlynol:

- ⇒ Cymorth o ran Caffael
- ⇒ Cymorth i Gleientiaid
- ⇒ Cymorth o ran Perfformiad
- ⇒ Cymorth o ran Fframwaith
- ⇒ Cyfrifon Banc Prosiect
- ⇒ Buddion i'r Gymuned

CYMDEITHAS GENEDLAETHOL FFRAMWEITHIAU ADEILADU



By the public sector,
For the public sector

Mae SWWRCF yn falch o gyhoeddi eu bod yn aelod o'r NACF, sy'n gweithio gyda fframweithiau adeiladu'r sector cyhoeddus yn genedlaethol ledled y DU i helpu i lunio dyfodol y strategaeth gaffael genedlaethol a sicrhau bod arfer gorau yn cael ei fabwysiadu ac yn cyfrannu at strategaeth adeiladu'r llywodraeth.



PAM SWWRCF?

- ◇ Hyblygrwydd
- ◇ Cydymffurfio
- ◇ Cost Effeithiol
- ◇ Cyfres Lawn o Ddogfennau Cynhwysfawr
- ◇ Gwerth Cymdeithasol
- ◇ Cefnogaeth ac Arbenigedd Profiadol
- ◇ Credadwy

MAE'R RAS AM Y CONTRACT £30,000,000 WEDI CYCHWYN

Mae gan contractwyr SWWRCF yn Lot 6 gyfle i ddatblygu adeilad arloesol gyda'r nod o ddenu busnesau technoleg a chreadigol i ganol dinas Abertawe. Bydd cynllun Cyngor Abertawe yn helpu i ysgogi cyflogaeth a thwf economaidd yng nghanol y ddinas ac mae'n rhan allweddol o gynlluniau adfywio'r ddinas.



SWWRCF YN CWRDD Â LLYWODRAETH CYMRU



Mae Rheolwyr Fframwaith Rhanbarthol o SWWRCF, dan arweiniad Hywel Harries o'r adain Dylunio Eiddo yng Nghyngor Sir Gaerfyrddin wedi cynnal trafodaethau llwyddiannus gyda Brendan Burke, Uwch Reolwr Polisi Gwerth Masnachol yn Llywodraeth Cymru a swyddog arweiniol ar gyfer Cyfrifon Banc Prosiect. Mae Cyfrifon Banc Prosiect yn berthnasol ar hyn o bryd i'r holl gontractau adeiladwaith a seilwaith a gyllidwyd yn llawn neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru ac sydd â gwerth presennol o £2 filiwn neu ragor. Mae Fframwaith SWWRCF yn cynnwys y cyfle i ddefnyddio Cyfrifon Banc Prosiect ar gyfer yr holl brosiectau cymwys ac yn darparu templedi gweithredoedd ymddiriedolaeth i'w defnyddio naill ai ar gyfrifon ar y cyd neu gyfrifon unigol.

CYSYLLTWCH Â NI



Dylunio Eiddo, Parc Myrddin, Sir Gaerfyrddin, SA31 1HQ



TSSWWRCF@sirgar.gov.uk



Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-Orllewin Cymru